CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant (WGC 010/2024)

Canllawiau i randdeiliaid ar reoliadau ar gyfer systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 23 Gorffennaf 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 23 Gorffennaf 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/systemau-llethu-tan-awtomatig-mewn-cartrefi-gofal-i-blant-wgc-0102024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Cylchlythyr rheoliadau adeiladu

Cylchlythyr

Cwmpas y gwelliannau

Gwelliant i ddehongliad yn Rheoliad 2 o Reoliadau 2010

Gweliannau i Reoliad 37A o Reoliadau 2010

Trefniadau trosiannol

Ymholiadau



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/systemau-llethu-tan-awtomatig-mewn-cartrefi-gofal-i-blant-wgc-0102024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cylchlythyr rheoliadau adeiladu

**Rhif y cylchlythyr**: WGC 010/2024

**Dyddiad cyhoeddi**: 23/07/2024

**Statws**: Er gwybodaeth

**Teitl**: Systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant

**Cyhoeddwyd gan:** Colin Blick, Polisi Rheoliadau Adeiladu

**Ar gyfer:**

Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Cymeradwywyr Rheolaeth Adeiladu
Fforwm Personau Cymwys

**I'w anfon ymlaen at:**

Rheolwyr Rheoli Adeiladu yr Awdurdodau Lleol
Aelodau'r Senedd
Arolygiaeth Gofal Cymru

**Crynodeb:**

Yn unol â gofynion Rheoliadau Adeiladu 2010 mae'r cylchlythyr hwn yn hysbysu rhanddeiliaid o'r rheoliadau ar gyfer systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi gofal i blant yng Nghymru.

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/systemau-llethu-tan-awtomatig-mewn-cartrefi-gofal-i-blant-wgc-0102024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Tîm Rheoliadau Adeiladu
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Llinell uniongyrchol: 0300 060 4400
E-bost: **enquiries.brconstruction@llyw.cymru**
Gwefan: **adeiladu a chynllunio**

# Cylchlythyr

## Deddf Adeiladu 1984

### Rheoliadau Adeiladu 2010 ("Rheoliadau 2010")

1. Ar ran Gweinidogion Cymru rwy'n tynnu'ch sylw at Reoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau Diwygio") a wnaed ar 07 Mehefin 2024. Bydd y Rheoliadau Diwygio'n dod i rym ar 17 Rhagfyr 2024.

2. Yn unol ag adran 14(7) o Ddeddf Adeiladu 1984, gwnaed y Rheoliadau Diwygio ar ôl ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu.

3. Diben y Cylchlythyr hwn yw gwneud y canlynol:

- tynnu sylw at y gwelliannau ac egluro'r newidiadau y maent yn eu gwneud i Reoliadau 2010

4. Nid yw'r cylchlythyr yn rhoi cyngor ar ofynion technegol Rheoliadau Adeiladu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/systemau-llethu-tan-awtomatig-mewn-cartrefi-gofal-i-blant-wgc-0102024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

2010 gan fod Dogfennau Cymeradwy yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

5. Mae'r Cylchlythyr hwn yn nodi'r newidiadau i Reoliad 2 (Dehongli) a Rheoliad 37A (Darparu systemau llethu tân awtomatig) o Reoliadau 2010 fel y'u diwygiwyd. Dolenni i'r rheoliadau: **Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2024 (legislation.gov.uk)**; **Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2024 (legislation.gov.uk)**

6. Bydd y cyfeiriadau at Reoliad 37A o Reoliadau 2010 yn y Dogfennau Cymeradwy yn cael eu diweddaru maes o law.

## Cwmpas y gwelliannau

7. Mae'r Rheoliadau Diwygio yn gymwys i adeiladau a gwaith adeiladu yng Nghymru yn unig.

8. Mae'r Rheoliadau Diwygio yn diwygio Rheoliadau 2010 i atgynhyrchu darpariaethau a gynhwysir ym Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r darpariaethau yn Rheoliadau 2010 bellach yn ei gwneud yn ofynnol:

- i systemau llethu tân awtomatig o dan Reoliad 37A o Reoliadau 2010 fod yn gymwys i gartrefi gofal i blant
- i systemau llethu tân awtomatig o dan Reoliad 37A o Reoliadau 2010 fod yn gymwys pan fo newid defnydd o gartref gofal i blant i gartref gofal i oedolion ac fel arall o gartref gofal i oedolion i gartref gofal i blant

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/systemau-llethu-tan-awtomatig-mewn-cartrefi-gofal-i-blant-wgc-0102024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Gwelliant i ddehongliad yn Rheoliad 2 o Reoliadau 2010

9. Mae rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau Diwygio yn diwygio'r diffiniad o "sefydliad" yn Rheoliad 2 (dehongli) o Reoliadau 2010. Mae'r newid yn rhoi mwy o eglurder ynghylch yr adeiladau sy'n cael eu cwmpasu gan y diffiniad. Y prif newid yw dileu'r cyfeiriad at blant o dan bump oed, a nodi "o dan 18 oed" yn lle hynny. Bydd hyn yn sicrhau bod cartrefi plant yn cael eu cynnwys yn y dehongliad hwn.

## Gweliannau i Reoliad 37A o Reoliadau 2010

10. Mae rheoliad 2(3)(a) o'r Rheoliadau Diwygio yn diwygio Rheoliad 37A (darparu systemau llethu tân awtomatig) o Reoliadau 2010 i gynnwys cartrefi gofal i blant yn benodol mewn is-baragraff newydd (aa). Mae is-baragraff (a) yn cynnwys cartrefi gofal i oedolion. Felly, mae'r gwelliant hwn yn sicrhau cydraddoldeb rhwng cartrefi gofal i blant a chartrefi gofal i oedolion.

11. Mae rheoliad 2(3)(b) o'r Rheoliadau Diwygio yn rhoi paragraff newydd yn lle paragraff (2) fel bod newid defnydd sylweddol mewn adeilad, at ddibenion rheoliad 37A, yn cynnwys newid defnydd sylweddol o gartref gofal i blant i gartref gofal i oedolion neu o gartref gofal i oedolion i gartref gofal i blant.

12. Mae paragraff (2A) sydd newydd ei fewnosod yn cadarnhau na fydd y gofynion a osodir gan Reoliad 6 o Reoliadau 2010 yn gymwys i newid defnydd sylweddol a ddisgrifir ym mharagraff (2)(b) o'r rheoliadau diwygio.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/systemau-llethu-tan-awtomatig-mewn-cartrefi-gofal-i-blant-wgc-0102024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Trefniadau trosiannol

13. Nid yw'r Rheoliadau Diwygio yn gymwys mewn unrhyw achos pan fo hysbysiad adeiladu neu hysbysiad cychwynnol wedi ei roi i awdurdod lleol, neu pan fo cynlluniau llawn wedi eu hadneuo gydag awdurdod lleol cyn 17 Rhagfyr 2024.

14. Pwysig: Bydd y gofyniad am systemau llethu tân awtomatig mewn cartrefi plant yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas â Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 cyn y dyddiad hwn.

## Ymholiadau

Dylid anfon unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r Cylchlythyr hwn i'r cyfeiriad canlynol:

Y Tîm Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Rhyd-y-car Merthyr Tudful, CF48 1UZ.

E-bost: **enquiries.brconstruction@llyw.cymru**

Yn gywir

**Mark Tambini**

**Pennaeth Polisi Rheoliadau Adeiladu**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/systemau-llethu-tan-awtomatig-mewn-cartrefi-gofal-i-blant-wgc-0102024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/systemau-llethu-tan-awtomatig-mewn-cartrefi-gofal-i-blant-wgc-0102024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.